# BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 21 Medi 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
E. Dole, C.A. Campbell, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins, L.M. Stephens and J. Tremlett

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr: D.M. Cundy ac D. Price

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
W. Walters, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
S. Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg
A. Bebb, Gwasanaeth Cofrestru Etholiadol a Sifil
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S Burford, Rheolwr y Prosiect
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Hawker, Swyddog Cymorth Digidol
J. Corner, Swyddog Technegol
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol
G. Jones, Peiriannydd Cymorth Digidol
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb - 10.35 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| P. Hughes Griffiths | 7 - Effaith Covid-19 ar Ansawdd Aer yn Sir Gaerfyrddin | Mae'n byw yn Nheras Richmond, sef ardal a gafodd ei monitro ar gyfer ansawdd aer. |

## 3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR Y 7FED MEDI, 2020

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 7 Medi, 2020 yn gofnod cywir.**

## 4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## 5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 6. PENODI UWCH-GRWNER DROS DRO AWDURDODAETH SIR BENFRO A SIR GAERFYRDDIN

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i adroddiad yn manylu ar y cynnig i benodi Mr Paul Bennett fel yr Uwch-grwner dros dro ar gyfer awdurdodaeth Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn dilyn ymddiswyddiad Mr Mark Layton ar 31 Mai, 2020.

Nodwyd bod gan y ddau Gyngor, ar y cyd â'r Prif Grwner a'r Arglwydd Ganghellor/y Weinyddiaeth Gyfiawnder, rwymedigaeth gyfreithiol i sicrhau bod gan yr awdurdodaeth drefniadau gwasanaeth crwner effeithiol ar waith gydag adnoddau digonol.

Fodd bynnag, wrth benodi dros dro, o dan Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, roedd y Prif Grwner ac Adran yr Arglwydd Ganghellor/y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddau Gyngor ystyried yn gyntaf a ddylid cyfuno'r awdurdodaeth ag ardal Crwner arall cyn penodi Uwch-grwner parhaol.

Ni fyddai caniatâd i benodi Uwch-grwner parhaol yn cael ei roi hyd nes bod y mater o gyfuno ardaloedd crwneriaid yn cael ystyriaeth lawn, gan arwain at yr angen am benodiad dros dro.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**6.1 Cymeradwyo penodi Mr Paul Bennett fel Uwch-grwner dros dro ar 1 Mehefin 2020 ar gyfer awdurdodaeth Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.**

**6.2 Awdurdodi'r camau angenrheidiol sy'n ofynnol i fynd i'r afael â chyfuno Ardal Crwner Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin ag Ardal Crwner arall yn ôl yr angen ac yn unol â chyfarwyddiadau'r Prif Grwner, yr Arglwydd Ganghellor/y Weinyddiaeth Gyfiawnder.**

## 7. EFFAITH CYFYNGIADAU SYMUD COVID-19 AR ANSAWDD AER YN SIR GAERFYRDDIN

[Noder: Gan fod y Cynghorydd P. Hughes-Griffiths wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, nid oedd wedi cymryd rhan yn y broses o ystyried y mater a phenderfynu arno].

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i adroddiad yn manylu ar effaith cyfyngiadau symud Covid-19 ar ansawdd aer yn Sir Gaerfyrddin.

Arweiniodd y cyfyngiadau symud at ostyngiad sylweddol yn nifer y cerbydau ar y ffyrdd a gwelliant yn ansawdd yr aer.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**7.1 Ymrwymo i beidio ag annog siwrneiau nad ydynt yn hanfodol o dan y trefniadau 'normal newydd' trwy ehangu ar bolisïau presennol sy'n ymwneud â gweithio gartref a gweithio ystwyth, pan ellir gwneud y gwaith yn effeithiol naill ai gartref neu mewn swyddfa agosach a mwy cyfleus.**

**7.2 Annog staff i ystyried defnyddio technegau digidol nad ydynt yn gysylltiedig â theithio fel yr opsiwn cyntaf a ffefrir (lle bo hynny'n bosibl) at ddibenion cyfarfodydd a hyfforddiant.**

## 8. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad monitro'r gyllideb refeniw a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 30 Mehefin 2020, o ran 2020/2021. Roedd y sefyllfa gyllidebol yn cydnabod y pwysau ychwanegol sylweddol a roddwyd ar yr Awdurdod wrth ymateb i bandemig Covid-19.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad monitro yn rhagweld y byddai gorwariant diwedd blwyddyn o £7,400k ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod ac y byddai gorwariant o £8,000k ar lefel adrannol.

Tynnwyd sylw'r Bwrdd Gweithredol at y ffaith nad oedd y rhagolwg yn cynnwys unrhyw lwfans ar gyfer gostyngiad yng nghasgliad y Dreth Gyngor ac roedd hyn yn cael ei fonitro'n agos gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol.

Cadarnhaodd yr adroddiad fod yr Awdurdod yn cyflwyno hawliad caledi misol i Lywodraeth Cymru am wariant Covid-19 ychwanegol. Roedd y rhan fwyaf o'r costau'n cael eu had-dalu, er bod rhai yn cael eu hystyried yn anghymwys ac nid oedd yn glir pa mor hir y byddai'r dull cyllido yn parhau.

Yng ngoleuni'r gorwariant sylweddol a ragwelwyd ar lefel adrannol, gofynnwyd i Brif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth adolygu'r opsiynau a oedd ar gael iddynt yn feirniadol i gyfyngu ar y gorwariant a ragwelwyd ar gyllidebau, yn ogystal â chydnabod y pwysau yr oedd Covid-19 wedi'i roi ar gyllideb gyffredinol yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**8.1 Derbyn adroddiad monitro'r gyllideb, a rhoi ystyriaeth i'r sefyllfa gyllidebol a'r camau unioni priodol.**

**8.2 Bod y Prif Swyddogion a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn adolygu'r opsiynau sydd ar gael iddynt yn feirniadol i gyfyngu ar y gorwariant a ragwelwyd ar gyllidebau, yn ogystal â chydnabod y pwysau y mae Covid-19 wedi'i roi ar gyllideb gyffredinol yr Awdurdod.**

## 9. DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2020/21

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran sefyllfa'r gyllideb ar gyfer rhaglen gyfalaf 2020/21 ar 30 Mehefin, 2020.

Yn adrannol rhagwelwyd gwariant net o £69,816k o gymharu â chyllideb net weithredol o £114,079k gan roi £44,263k o amrywiant.

Roedd y gyllideb net yn cynnwys rhaglen wreiddiol y Cyfrif Refeniw Tai a'r Gronfa Gyffredinol, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 3 Mawrth, llithriad o 2019/20, prosiectau newydd a gymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol ar 29 Mehefin 2020 a chyllidebau yn ymwneud ag ysbytai maes sy'n ymateb i Covid-19.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**9.1 Derbyn adroddiad diweddaru'r rhaglen gyfalaf.**
**9.2 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau y manylir arnynt yn yr adroddiad.**

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DANGOSYDD DARBODAETH 2019-2020

Fel rhan o ofynion Côd Ymarfer diwygiedig CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol y Cyngor ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth ar gyfer 2019-20.

Mabwysiadodd y Cyngor Bolisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd ar gyfer 2019-20 ar 20 Chwefror 2019. Rhestrodd yr adroddiad blynyddol y gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2019-20.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR dderbyn yr Adroddiad Blynyddol ynghylch Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodaeth ar gyfer 2019/20.**

**11. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

**12. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**13. PENTRE AWEL**

**Yn sgil cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 12 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion am bartneriaid academaidd posibl nad ydynt hyd yma wedi llofnodi memoranda cyd-ddealltwriaeth gyda'r Awdurdod. Er y byddai'r budd i'r cyhoedd fel rheol yn ffafrio tryloywder a diffuantrwydd, roedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn yr achos hwn hyd nes i'r memoranda cyd-ddealltwriaeth gael ei lofnodi yn drech na hynny.**

Rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad ynghylch Pentre Awel mewn perthynas â chyflwyno achos busnes y Fargen Ddinesig, cytundebau â phartneriaid academaidd a datblygu dyluniad cam 1.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:**

**13.1 Cymeradwyo'r achos busnes terfynol (fel yr atodir yn atodiad 1) i'w gyflwyno'n ffurfiol i Gyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe i'w gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.**

**13.2 Cymeradwyo a llofnodi'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth â phartneriaid academaidd. Nodi bod y trafodaethau hyn yn cyd-fynd â'r cynllunio cyffredinol ar gyfer addysg, sgiliau a hyfforddiant.**

**13.3 Cymeradwyo cwblhad gwaith datblygu dyluniadau manwl ac allbynnau RIBA Cam 3.**

**14. RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION PARTNERIAETH ADDYSG GYMRAEG MODEL BUDDSODDI CYDFUDDIANOL YSGOLION 21AIN GANRIF - CYTUNDEB PARTNERU STRATEGOL**

**Yn sgil cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 12 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 ac 16 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Er y byddai'r prawf budd i'r cyhoedd fel rheol yn ffafrio tryloywder a diffuantrwydd, roedd y budd i'r cyhoedd o gadw cyfrinachedd yn drech yn yr achos hwn (i) er mwyn diogelu buddiannau masnachol y cynigydd / cwmni a ffefrir; (ii) er mwyn amddiffyn buddiannau'r Awdurdod a'r Cyfranogwyr eraill mewn cysylltiad â'r cyngor cyfreithiol a roddwyd iddynt mewn cysylltiad â'r dogfennau hyn.**

Rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad ynghylch Partneriaeth Addysg Ysgolion yr 21ain Ganrif Model Buddsoddi Cydfuddiannol - Cytundeb Partneriaethau Strategol.

Dywedwyd wrth y Bwrdd Gweithredol, gyda chytundeb Cadeiryddion y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant a'r Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau, o dan Erthygl 6.7 o'r Cyfansoddiad, bod y cyfnod galw wedi'i hepgor. Roedd hyn er mwyn galluogi'r Awdurdod i fodloni'r dyddiad cau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**14.1 Nodi cynnydd y Cam Cynigydd a Ffefrir yn y Weithdrefn Deialog Gystadleuol o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn;**

**14.2 Cymeradwyo cyflawni, cyflwyno a pherfformio'r Cytundeb Partneriaethau Strategol gyda Chwmni Partneriaeth Addysg Cymru ym mis Medi 2020 i hwyluso'r broses o ddarparu ystod o wasanaethau seilwaith a darparu cyfleusterau addysg a chymunedol;**

**14.3 Cymeradwyo'r Cytundeb Partneriaethau Strategol yn Atodiad A eithriedig yr adroddiad hwn ac a grynhowyd yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn er mwyn cyflawni argymhelliad (b);**

**14.4 Nodi y bydd y Cytundeb Partneriaethau Strategol yn cael ei gyflawni fel gweithred a'i ardystio yn unol ag Erthygl 13.5 o'r Cyfansoddiad;**

**14.5 Cymeradwyo penodi Simon Davies yn 'Gynrychiolydd Cyfranogwyr' i eistedd ar y Bwrdd Partneriaeth Strategol;**

**14.6 Nodi, wrth gytuno i'r Cytundeb Partneriaethau Strategol, na ofynnir iddo benderfynu bwrw ymlaen ag unrhyw Brosiect ar hyn o bryd. Bydd unrhyw argymhelliad i fwrw ymlaen â Phrosiect yn cael ei adrodd yn ôl i'r Bwrdd Gweithredol mewn adroddiad(au) yn y dyfodol i'w benderfynu.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**